

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth
Ychwanegol
Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd: Paratoadau
yng Nghymru ar gyfer diwedd y cyfnod pontio
EAAL(5) EUP20
Ymateb gan Cyngor Celfyddydau Cymru /
Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

Welsh Parliament
External Affairs and Additional Legislation
Committee
Exiting the European Union: Preparedness in
Wales for the end of the transition period
Evidence from Arts Council Wales / Wales Arts
International

Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd: Paratoadau yng Nghymru ar gyfer diwedd y cyfnod pontio

Ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru/Celfyddydau Rhyngwladol Cymru i ymchwiliad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol – gwybodaeth atodol

Hydref 2020

1. Ym mis Gorffennaf 2020, cyflwynwyd nodyn briffio gennym i Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a Phwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Senedd. Roedd y nodyn briffio hwnnw'n amlinellu'r prif feysydd sy'n peri pryder ac yn dangos effaith bosibl Brexit ar y celfyddydau yng Nghymru. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i gyd-fynd â'r nodyn briffio hwnnw, ac mae'n rhoi diweddariad am y sefyllfa bresennol ym mis Hydref 2020.
2. Ym mis Gorffennaf, soniwyd am y modd roedd y celfyddydau yng Nghymru yn wynebu "ergyd ddwbl" yn sgil yr effaith negyddol a'r ansicrwydd sydd ynghlwm wrth Covid-19 a Brexit. Yr un yw'r sefyllfa hon wrth i gyfyngiadau Covid barhau ac os na fydd cytundeb rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd (ar adeg llunio'r ddogfen hon). Mae'r sector celfyddydau yng Nghymru yn paratoi at ddiwedd y cyfnod pontio yn ogystal â pharatoi i ailagor a gweithredu o dan ganllawiau diwygiedig Covid.
3. Ar hyn o bryd, mae'n debygol y bydd bwlch cyllido ar ddiwedd y cyfnod pontio cyn cyflwyno unrhyw raglenni cyllido domestig, gwahanol. Ym mis Gorffennaf, aethom ati ar y cyd â Creative Scotland a DCMS i drefnu digwyddiad bord gron i randdeiliaid. Y nod oedd ymgynghori â'r sector celfyddydau am raglen arfaethedig yn y Deyrnas Unedig yn lle Ewrop Greadigol. Rydym yn aros i glywed sut y bydd canlyniad yr Adolygiad o Wariant, sydd bellach yn cwmpasu blwyddyn yn unig, yn effeithio ar y cynigion hyn. Byddwn hefyd yn parhau i eirioli'n gryf dros fanteision parhau i fod yn rhan o'r rhaglen Ewrop Greadigol.
4. Yn yr haf hefyd, cyflwynwyd ymatebion gennym i ymgynghoriadau am y cynigion ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ac rydym yn aros rhagor o newyddion am hyn, gan fod nifer o sefydliadau celfyddydol wedi elwa'n fawr o gronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd hyd yma. Mae pryderon am effaith Bil y Farchnad Fewnol ac uno'r Adran Cymorth Tramor Rhyngwladol a'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad ar feysydd datganoledig fel diwylliant a phŵer meddal.
5. Mae DCMS wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau briffio i randdeiliaid dros y pythefnos diwethaf, a gwahoddwyd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a nifer o brif gwmnïau celfyddydol Cymru i'r rhain. Rhoddwyd diweddariadau am y newidiadau disgwylidig i'r rhyddid i symud nwyddau a rhyddid pobl i symud o fis Ionawr 2021.

6. Mae gan y sector celfyddydau bryderon mawr am y newidiadau i'r trefniadau ar gyfer symud nwyddau a hawliau symud pobl, a hynny o ran mynd allan i'r Undeb Ewropeaidd a dod i mewn i'r Deyrnas Unedig ill dau. Os na cheir cytundeb, bydd costau fisas ychwanegol; bydd angen trwyddedau gwaith; bydd costau nawdd cymdeithasol; a bydd angen trwyddedau i symud nwyddau.
7. Er y gellid datrys rhai o'r pryderon hyn os ceir cytundeb rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, mae'n rhaid i sefydliadau celfyddydol gynllunio'n ofalus at wahanol senarios a chostio nifer o opsiynau os ydynt yn ystyried teithio i unrhyw wlad yn yr Undeb Ewropeaidd ar ôl mis Ionawr 2021, neu os ydynt yn cynnal digwyddiadau yn y Deyrnas Unedig sy'n cynnwys artistiaid neu gwmnïau o'r Undeb Ewropeaidd. (Mae hyn yn ychwanegol at yr angen i greu cynlluniau wrth gefn i addasu i ganllawiau Covid wrth i'r rheini newid).
8. Mae diffyg gwybodaeth, a sut i gyflwyno'r newidiadau a ddaw i rym ym mis Ionawr 2021, wedi bod yn gryn her i'r sector celfyddydau, ond yn ddiweddar bu mwy o sesiynau gwybodaeth a sesiynau briffio gan gyrff yn y sector, ynghyd â sesiynau briffio diweddar DCMS.
9. Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru/Cyngor Celfyddydau Cymru, ynghyd â'n chwaer-asiantaethau, Creative Scotland ac Arts Council England, wedi ymrwmo i ddatblygu cynllun i roi gwybodaeth am allu artistiaid i ddod i'r Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd/o wledydd rhyngwladol, gan roi sylw i feysydd ymarferol a chyfreithiol fel fisas, treth, nawdd cymdeithasol ac ati. Bydd modd cyfeirio pobl hefyd at adnoddau/ffynonellau gwybodaeth eraill, gan gynnwys pan fydd gwybodaeth ar gael am allu artistiaid i symud o'r Deyrnas Unedig i'r Undeb Ewropeaidd/i wledydd rhyngwladol. Prosiect peilot yw hwn a fydd i'w gynnal rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2021.